# Disgrifad Swydd Generig
# Cynorthwyydd Addysgu Ysgol Arbennig (Lefel 2)

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl swydd:** | Cynorthwyydd Addysgu (Lefel 2) | **Blaenau Gwent Gradd:** | Graddfa 4 SCP 7-12 |
| **Ysgol:** | Ysgol Arbennig Pen-y-cwm | **Rhif Swydd:** | |
| **Rheolwr Llinell:** | Uwch Athro, Athro Dosbarth. Uwch Gynorthwyydd Addysgu | | |
| **Cyfrifoldeb goruchwylio:** | Dim, heblaw am gynorthwyo i sicrhau bod aelodau newydd o staff yn dod yn gyfarwydd â'r gwaith. | | |
| **Oriau:** | 8.30am i 3.30pm (dydd Llun i ddydd Gwener) | | |

## Prif ddibenion y swydd

- Gweithio dan oruchwyliaeth, cyfarwyddyd a chanllawiau penodol yr athro/athrawes dosbarth i gefnogi gweithgareddau addysgu a dysgu yn yr ystafell ddosbarth gyda disgyblion sydd ag anghenion cymhleth ac anawsterau dysgu dybryd.

- Rhoi cefnogaeth gyffredinol i'r athro/athrawes dosbarth gyda threfnu a rheoli disgyblion a'r ystafell ddosbarth gan sicrhau y gefnogaeth briodol ar gyfer pob disgybl yn dibynnu ar eu hanghenion unigol a gynlluniwyd.

- Cynorthwyo'r athro/athrawes wrth greu a chynnal amgylchedd dysgu pwrpasol, trefnus a chefnogol ar gyfer pob disgybl yn arbennig helpu i oresgyn rhwystrau lluosog i ddysgu yn cynnwys anawsterau corfforol, emosiynol ac ymddygiadol.

- Hyrwyddo cynhwysiant pob disgybl, gan sicrhau fod ganddynt fynediad cyfartal i gyfleoedd i ddysgu a datblygu.

- Bod yn gyfrifol am hyrwyddo a diogelu llesiant plant a phobl ifanc o fewn yr ysgol.

## Prif gyfrifoldebau a thasgau

### Cymorth i ddisgyblion

1. Dan oruchwyliaeth benodol yr athro/athrawes dosbarth, gweithio gyda disgyblion unigolion a grwpiau o ddisgyblion i gyflwyno rhaglenni dysgu gan roi ystyriaeth i ofynion ychwanegol AAA/.ADY.

2. Annog disgyblion i ryngweithio gydag eraill a chymryd rhan mewn gweithgareddau dan arweiniad yr athro/athrawes, a all gynnwys cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol gyda'r disgyblion.

3. Bod â gwybodaeth o anghenion arbennig cymhleth a medru defnyddio rhaglenni priodol tebyg i Team Teach.

4. Cydnabod y gall disgyblion fod ag anawsterau cyfathrebu a medru defnyddio technegau cyfathrebu eraill os oes angen.

5. Gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol a dilyn y rhaglen a gynlluniwyd ar gyfer disgyblion unigol e.e. iechyd galwedigaethol, therapyddion lleferydd a ffisiotherapyddion.

6. Cynorthwyo gyda gofal bugeiliol cyffredinol y disgyblion, yn cynnwys helpu disgyblion sydd yn dost, gofidus neu anesmwyth ac sydd ag anawsterau emosiynol ac ymddygiadol.

7. Cynorthwyo'r disgyblion gydag anghenion gofal personol a all gynnwys materion cymdeithasol, iechyd, hylendid a llesiant. Gallai hyn gynnwys gweithdrefnau a gytunwyd yn lleol ar gyfer codi a chario a dilyn rhaglen o feddyginiaeth ar bresgripsiwn dan ganllawiau a gytunwyd.

## Cymorth i'r athro/athrawes

8. Paratoi a chynnal adnoddau sylfaenol ystafelloedd dosbarth ac offer yn ôl cyfarwyddyd yr athro/athrawes dosbarth a chynorthwyo'r disgyblion i'w defnyddio.

9. Paratoi'r ystafell ddosbarth yn ôl cyfarwyddyd ar gyfer gwersi, gan sicrhau fod adnoddau ar gael ac y cânt eu clirio ar ddiwedd y wers fel sy'n briodol.

10. Rhoi adborth rheolaidd i athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill ar gyflawniad a chynnydd disgyblion.

11. Rhoi adborth ar ddisgyblion yng nghyswllt cynnydd a chyflawniad dan arweiniad yr athro/athrawes. Gall hyn gynnwys adborth ar gynnydd disgyblion wrth gyrraedd targedau cynlluniau addysg unigol.

12. Gweinyddu a marcio profion arferol dan arweiniad yr athro/athrawes dosbarth ac yn unol gyda pholisi marcio yr ysgol.

13. Gwybod am gynllunio gwaith a gweithgareddau.

14. Darparu cefnogaeth glerigol cyffredinol i'r athro/athrawes e.e. llungopïo, lamineiddio, ffeilio ac yn y blaen fel sydd angen.

## Cymorth i'r ysgol

15. Gwybod am a chydymffurfio gyda pholisïau a gweithdrefnau'n ymwneud ag amddiffyn plant, iechyd a diogelwch, AAA/cynhwysiant a diogelu data gan hysbysu'r person priodol a enwir am bob mater o gonsyrn.

16. Cynorthwyo gyda goruchwylio disgyblion tu allan i amser gwersi ond yn ystod y diwrnod ysgol, gydag oriau contract fel sydd angen ar gyfer eu diogelwch.

17. Gweithio mewn amgylchedd lle mae dwysedd amrywiol o ofynion gan y disgyblion a lle gall fod angen ymyriad corfforol i sicrhau diogelwch y plentyn neu eraill.

18. Cynllunio, paratoi a mynd gyda staff addysgu a disgyblion ar ymweliadau, tripiau a gweithgareddau tu allan o'r ysgol o fewn oriau contract fel sydd angen.

19. Cynorthwyo gyda gofal bugeiliol cyffredinol disgyblion, yn cynnwys helpu disgyblion sy'n dost, gofidus neu anesmwyth a'r rhai sy'n profi anawsterau emosiynol ac ymddygiadol.

20. Mynychu cyfarfodydd perthnasol a chymryd rhan mewn cyfleoedd hyfforddi a datblygiad proffesiynol fel sydd angen.

21. Mynychu cyfarfodydd perthnasol a chymryd rhan mewn hyfforddiant perthnasol a datblygu perfformiad fel sydd angen.

22. Cydymffurfio â pholisi iechyd a diogelwch yr ysgol yn cynnwys asesu risg a systemau diogelwch.

23. Cydymffurfio gyda pholisi'r ysgol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

## Cymorth i'r cwricwlwm

24. Cynorthwyo gyda datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGCh sylfaenol a chefnogi eu defnydd mewn gweithgareddau dysgu..

25. Ymgymryd â dyletswyddau bras debyg yn gymesur gyda'r swydd yn ôl gofynion Pennaeth yr ysgol.